*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adroddiad Monitro Perfformiad, Ebrill 2024 – Mawrth 2025** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi data cymharol sy'n ymwneud ag 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

2 Tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw sydd ar gynnydd, yn gostwng neu sy'n newydd.

3 Bod yn sail i ddatblygu gweithgarwch newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw alw neu risg sydd ar gynnydd neu'n ymddangos o'r newydd

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4 Mae nifer y digwyddiadau tân wedi cynyddu, gyda'r Gwasanaeth wedi mynd i 1,801 o danau - cynnydd o 8.5% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

5 Mae nifer yr achosion o Alwadau Tân Diangen yn parhau i gynyddu, gyda'r Gwasanaeth wedi mynd i 3,263 o ddigwyddiadau - cynnydd o 12.4% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

6 Arhosodd nifer y Tanau Damweiniol mewn Anheddau yr aethpwyd atynt yr un fath â'r llynedd, gyda'r Gwasanaeth wedi mynd i 338 o ddigwyddiadau.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 16 Mehefin 2025, lle nododd aelodau'r adroddiad. Cododd yr aelodau nifer o gwestiynau ar amrywiaeth o'r meysydd perfformiad gan gynnwys nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd, argaeledd ar alwad a gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc, gan dynnu sylw at effaith gadarnhaol gweithgareddau atal y Gwasanaeth.

## ARGYMHELLIAD

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Nodi cynnwys yr adroddiad Monitro Perfformiad.**

**GWYBODAETH**

9 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar bedwar chwarter blwyddyn ariannol 2024/25 wedi'u cyfuno, gyda chymariaethau'n cael eu gwneud â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2023/24).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad yn erbyn yr amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau cyllidebol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae adrodd yn caniatáu i'r ATA ystyried unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch annisgwyl o ran digwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Yn cynorthwyo'r ATA, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos sut mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Staffio | Dim goblygiadau staffio. Fodd bynnag, bydd cysoni'r adrodd â Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yr ATA yn fwy effeithlon. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Dim goblygiadau risg |